# PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor 1A, Neaudd Y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Gwener, 21 Mawrth 2014 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Aelodau Annibynnol Mrs Margaret Medley, Mr Ian Trigger (Cadeirydd), Mrs Paula White, Cynghorydd Cymuned David E. Jones a'r Cynghorydd Sir Bill Cowie.

## HEFYD YN BRESENNOL

Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Dirprwy Swyddog Monitro (LJ) a Gweinyddwr Pwyllgorau (CIW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Roberts a/ac Colin Hughes

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganodd unrhyw Aelod gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu ar unrhyw fater sy'n cael ei ystyried yn y cyfarfod.

Mewn ymateb i gwestiwn oddi wrth y Cynghorydd W.L. Cowie, cytunodd y Swyddog Monitro i nodi yn y ffeil Cofrestr Cysylltiadau bod rhodd ddienw, o dan £25 o werth, wedi cael ei gyflwyno i'r Cynghorydd Cowie yn ei gyfeiriad cartref

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ddydd Gwener, 31 Ionawr 2014.

Cywirdeb:-

Mewn ymateb i gwestiwn oddi wrth y Cynghorydd W.L. Cowie, cytunodd y Pwyllgor i gyfeiriad yn y cofnodion at "Cynghorau Tref a Chymuned" gael ei newid i ddweud "Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.

***PENDERFYNWYD*** *– y dylid, yn amodol ar yr uchod, dderbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.*

## 5 ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU

Roedd copi o adroddiad gan y Swyddog Monitro (MO), ar Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2012/13 a gyhoeddwyd ym mis Chwefror, 2014, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o waith Panel Dyfarnu Cymru (APW) ac roedd yn cynnwys crynodebau o'r achosion ac apeliadau yr oedd wedi delio â nhw dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yr adroddiad wedi'i gynnwys fel Atodiad.

Eglurodd y MO bod gan yr APW, a sefydlwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ddwy swyddogaeth statudol. Y cyntaf yw ffurfio tribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos dros dro i ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dilyn ymchwilio i honiadau bod aelod wedi methu cydymffurfio â Chod Ymddygiad yr Awdurdod perthnasol. Mae'r Panel yn ystyried yr honiadau mwyaf difrifol o dorri Cod Ymddygiad yr Aelodau. Yr ail swyddogaeth statudol yw ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau Pwyllgorau Safonau lleol yn dilyn atgyfeiriad at y pwyllgorau hynny gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Yn ystod 2012/13,roedd yr APW wedi derbyn pum atgyfeiriad newydd a phedwar achos wedi'u cario drosodd o flwyddyn ariannol flaenorol 2011/12. Roedd saith o'r achosion wedi cael eu clywed yn ystod y cyfnod a gwmpaswyd gan yr adroddiad ac roedd crynodebau wedi eu darparu. Roedd pum gwrandawiad wedi cael eu crynhoi yn yr adroddiad, gyda'r mater yn ymwneud â Chyngor Cymuned Coedpoeth wedi ymwneud â thair o'r cwynion.

Derbyniodd y Panel un apêl yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau lleol ac roedd crynodeb o'r achos wedi ei nodi yn yr adroddiad. Roedd pob un o'r achosion hyn wedi canfod bod yr aelodau dan sylw, drwy eu gweithredoedd, wedi dwyn anfri ar eu swydd neu eu hawdurdod a bod dau aelod wedi torri'r gofyniad i ddangos parch ac ystyriaeth i eraill. Roedd hyn yn gyson â'r themâu cyffredinol sy'n deillio o'r dadansoddiad a nodwyd yn yr adroddiad ynglŷn â'r gwahanol fathau o gamymddwyn sydd wedi eu hystyried gan y Panel ers 2002. Y tri maes mwyaf cyffredin o gamymddygiad oedd:

Paragraff 6, dwyn anfri ar swydd aelod neu awdurdod,
Paragraff 4, methu dangos parch, gan roi sylw i gyfle cyfartal a bwlio,
Paragraffau 11 a 14, datgan cysylltiad

Roedd tri o'r materion wedi bod yn dor-amodau a oedd yn cynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol gan yr Aelodau. Roedd un o'r achosion a gafodd ei grynhoi yn ymwneud â chyn-Gynghorydd Sir Ddinbych ac roedd adroddiad llawn wedi ei gynnwys ar wefan y Panel. Fel atodiad i'r adroddiad roedd y Panel wedi darparu crynodeb o'r cosbau a osodwyd gan y tribiwnlysoedd achos a thribiwnlysoedd apêl rhwng mis Hydref 2002 a mis Mawrth 2013. Roedd cosbau sylweddol wedi eu pennu gan y Panel yn ystod y cyfnod hwnnw, a dim ond lleiafrif o achosion oedd heb arwain at waharddiad neu ddiarddeliad.

Darparodd y MO grynodeb manwl o Adroddiad Blynyddol yr APW a oedd yn cynnwys:-

- Deddf Llywodraeth Leol 2000.
- Egwyddorion Ymddygiad y Cod Ymddygiad.
- Rôl y PPSOW.
- Rôl yr APW.
- Manylion aelodaeth yr APW.
- Honiadau o gamymddwyn: -
    - Trosolwg
    - Crynodeb o Dribiwnlysoedd Achos 2012 - 2013
    - Crynodeb o Dribiwnlysoedd Apêl 2012 - 2013
    - Achosion sy'n parhau
- Trosolwg o weithdrefnau.
- Uned Gefnogaeth

Roedd y materion a gododd o'r drafodaeth yn cynnwys: -

- Darparu hyfforddiant cydraddoldeb ar gyfer Aelodau Etholedig, ac adroddiad i'r Cyngor Sir yn gofyn am arweiniad ynglŷn ag a ddylai hyfforddiant o'r fath fod yn orfodol ai peidio.
- Amlygodd y Cyng. W.L. Cowie bwysigrwydd bod Aelodau Etholedig yn sicrhau nad yw unrhyw sylwadau a wneir ar lafar neu'n ysgrifenedig yn torri'r Cod Ymddygiad.
- Cyfeiriodd y Dirprwy MO at dudalen 12 o'r adroddiad, Ffigur 3: Tor-amodau yn ôl math Hydref - Mawrth, 2013. Tynnodd sylw at adrannau a oedd yn ymwneud â "Methu arwain drwy esiampl (darpariaeth leol)" a "methu â rhoi ystyriaeth i gyngor Pwyllgor Safonau", ac eglurodd ei bod yn ymddangos bod rhai Awdurdodau Lleol yng Nghymru wedi diwygio eu Cod Ymddygiad yn unol â hynny. Cytunodd y MO i ddarparu eglurhad ynghylch y ddwy ddarpariaeth leol drwy'r Rhwydwaith Swyddogion Monitro.
- Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cadarnhaodd y MO nad oedd llawer iawn o amrywiad rhwng y gwahanol Godau Ymddygiad Awdurdodau Lleol gwahanol.
- Eglurodd y MO bod gofyniad yn y Ddeddf i gael Cod Ymddygiad a bod yn rhaid iddo gynnwys holl ddarpariaethau'r Cod model ac y gellid cynnwys ychwanegiadau ato.
- Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cytunodd y MO i ddarparu manylion am faint o'r achosion a restrwyd yn yr adroddiad oedd wedi bod yn destun apêl i'r Uchel Lys. Eglurodd y MO bod manylion y dyfarniadau llawn ar gael ar y wefan APW.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) Bod y Pwyllgor Safonau yn derbyn ac yn nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru, a*
*(b) bod y Swyddog Monitro am geisio eglurhad mewn perthynas â: -*

- *nifer yr achosion a restrwyd yn yr adroddiad a oedd wedi bod yn destun apêl i’r Uchel Lys.*
- *yr adrannau yn y Ffigwr 3: Tor-amodau yn ôl math Hydref - Mawrth 2013, a oedd yn ymwneud â "Methu arwain drwy esiampl (darpariaeth leol)" a "methu â rhoi ystyriaeth i gyngor Pwyllgor Safonau".*

***(G) Williams i weithredu ar hyn)***

## 6 LLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Roedd copi o adroddiad gan y Swyddog Monitro (MO), ar gyflwyno llyfr achosion Cod Ymddygiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi llyfr achosion chwarterol yn flaenorol yn rhoi manylion cwynion yr ymchwiliwyd iddynt mewn perthynas â chamweinyddu wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Roedd yn galluogi Awdurdodau a'r cyhoedd i ddeall sut yr oedd cwynion wedi cael sylw ac mae'r mesurau a gyflwynwyd i'w datrys. Roedd ceisiadau wedi eu gwneud ar gyfer cyhoeddi llyfr achosion ar gyfer gwaith a wnaed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymchwilio i gwynion a wnaed mewn perthynas ag ymddygiad Aelodau Etholedig.

Byddai'r llyfr achosion Cod Ymddygiad newydd yn cael ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn ac yn cynnwys crynodebau o'r holl achosion lle mae'r OGCC wedi cwblhau ymchwiliad yn y chwe mis blaenorol. Lle mae’r achosion hynny wedi'u cyfeirio at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, byddai dolen electronig yn cael ei darparu i’r adroddiad llawn o ganlyniad yr achos a gynhyrchwyd gan y Pwyllgor neu'r Panel perthnasol.

Byddai cyhoeddi’r crynodebau hyn yn helpu Aelodau ac eraill wrth ystyried a yw amgylchiadau y gallant eu profi yn gyfystyr â thorri'r Cod. Roedd manylion y canllawiau OGCC ar y Cod, y gobeithiwyd a fyddai’n cynorthwyo i ddarparu dealltwriaeth well o weithrediad y Cod, wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Byddai’r llyfr achosion yn caniatáu mynediad i Bwyllgorau Safonau awdurdod lleol i wybodaeth am y ffordd mae Pwyllgorau Safonau eraill yn gosod sancsiynau a chael gwared ar achosion ac yn helpu i esbonio pam, mewn rhai achosion y gall yr Ombwdsmon wrthod ymchwilio toriadau honedig ar y sail nad oedd honiadau blaenorol tebyg wedi arwain at sancsiwn.

Roedd rhifyn cyntaf y llyfr achosion ynghlwm yn Atodiad 1 ac roedd yn cynnwys manylion materion y cwblhaodd yr Ombwdsmon ymchwiliad a chyhoeddi adroddiad arnynt rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2013. Roedd y rhan fwyaf o achosion o dor-amodau lle’r oedd cwynion amdanynt yn y rhifyn hwn o lyfr achosion y Cod Ymddygiad yn ymwneud â'r gofyniad i ddangos parch ac ystyriaeth i eraill a chofrestru a datgelu cysylltiadau.

Darparwyd crynodeb manwl o’r goblygiadau a oedd yn deillio o gyfeirnod Achos 200802503, ar dudalen 14 yr adroddiad, gan y MO. Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfeirnod Achos 201201768 a mynegodd y farn, os oedd y dystiolaeth yn anghyson, yna dylid bod wedi mynd ar ôl y mater. Cymeradwyodd y MO y farn a fynegwyd gan y Cadeirydd a chyfeiriodd at y crynodeb a ddarparwyd a oedd braidd yn fyr.

Eglurodd y MO bod cyfran sylweddol o'r achosion a atgyfeiriwyd yn ymwneud â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned, a phwysleisiodd bwysigrwydd darparu hyfforddiant ar gyfer yr Aelodau priodol. Darparwyd amlinelliad o'r hyfforddiant a ddarperir, ac atodlen arfaethedig o hyfforddiant a chyflwyniadau yn y dyfodol, ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor. Eglurodd y Cadeirydd bod safon yr hyfforddiant a ddarperir gan y MO a’r Dirprwy MO o safon ragorol. Cadarnhaodd Aelodau'r Pwyllgor y safbwyntiau a fynegwyd ynghylch yr angen a phwysigrwydd darparu hyfforddiant.

***PENDERFYNWYD -*** *Bod yr Aelodau'n nodi cyflwyno llyfr achosion Cod Ymddygiad a chynnwys y rhifyn cyntaf.*

## 7 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i roi adborth o gyfarfodydd Cyngor Sir, Tref a Chymuned yr oeddent wedi’u mynychu yn ddiweddar a chymerodd yr Aelodau'r cyfle i gynnig crynodeb o sut roedd y Cynghorau perthnasol wedi gweithredu.

Roedd y Cynghorydd W.E. Cowie wedi mynychu’r cyfarfodydd canlynol a darparodd y crynodebau canlynol: -

<u>Cyngor Tref Prestatyn, 5 Chwefror, 2014</u>: - Roedd y cyfarfod wedi ei gynnal yn dda ac nid oedd unrhyw faterion o bryderon i adrodd amdanynt. Roedd aelodau o'r cyhoedd wedi bod yn bresennol a dywedodd y Cynghorydd Cowie ei fod wedi cael argraff dda gyda fformat y rhaglen.

<u>Cyngor Tref Rhuddlan, Chwefror 13, 2014</u>: - Roedd y cyfarfod gyda nifer dda ynddo gydag aelodau o'r cyhoedd hefyd yn bresennol. Ar ddechrau’r cyfarfod roedd y Maer wedi atgoffa’r Aelodau o’r angen i ddarllen y Cod Ymddygiad a pherthnasedd Archebion Sefydlog. Cyfeiriodd y Cynghorydd Cowie at ddiffyg cyfeirio at gywirdeb a materion yn codi o gofnodion y cyfarfod blaenorol, dealltwriaeth o’r Cynllun Tref a mynegodd bryder ynglŷn â rhai o'r prosesau gwneud penderfyniadau a fabwysiadwyd.

<u>Cyngor Dinas Llanelwy, 12 Mawrth, 2014</u>: - Adroddodd y Cynghorydd Cowie fod y cyfarfod wedi ei gynnal yn dda ac nid oes unrhyw faterion sy'n peri pryder wedi codi.

Roedd y Cynghorydd D.E. Jones wedi mynychu’r cyfarfod canlynol a darparodd y crynodeb canlynol: -

Cyngor Cymuned Llanbedr Dyffryn Clwyd, 14 Chwefror, 2014: - Dywedodd y Cynghorydd D.E. Jones wrth yr Aelodau bod gan y Cyngor Cymuned ar hyn o bryd ddwy swydd wag a bod y presenoldeb yn y cyfarfod wedi bod yn wael. Roedd y cyfarfod wedi bod yn gadarnhaol ac wedi'i gynnal mewn modd anffurfiol, gyda phrif bryder yr Aelodau yn ymwneud â dyfodol yr ysgol gynradd leol.

Ar ôl cael cais i siarad yn y cyfarfod roedd y Cynghorydd Jones wedi manteisio ar y cyfle i egluro mai dibyn presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Safonau mewn cyfarfodydd oedd darparu anogaeth a chefnogaeth i'r Cynghorau perthnasol. Roedd hefyd wedi pwysleisio pwysigrwydd y Cod Ymddygiad a darparu hyfforddiant i Gadeiryddion ac Aelodau o'r Cynghorau.

Awgrymwyd y posibilrwydd o ddarparu'r Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned priodol gyda manylion am bwrpas presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Safonau mewn cyfarfodydd. Rhoddodd yr Aelodau Unigol fanylion ynghylch sut roeddent yn cyflwyno eu hunain, a'r wybodaeth y maent yn ei chyfleu, wrth gynrychioli'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfodydd Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.

***PENDERFYNWYD -*** *bod y Pwyllgor Safonau yn derbyn ac yn nodi'r adborth a gyflwynir o gyfarfodydd diweddar a fynychwyd gan Aelodau'r Pwyllgor.*

## 8 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nododd yr Aelodau bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau yn cael ei gynnal am 10.00 a.m. ddydd Gwener 9 Mai 2014 yn Ystafell Gynadledda 1B, Neuadd y Sir, Rhuthun.

Dosbarthwyd copi o'r amserlen ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor Sir ar gyfer 2014 i 2015 i Aelodau'r Pwyllgor.

Cytunodd y Pwyllgor gynnwys yr eitemau busnes canlynol ar y rhaglen ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau: -

(I) Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol.
(Ii) Archwiliad o Ddatganiadau Cysylltiad.

***PENDERFYNWYD -*** *bod y Pwyllgor Safonau yn cadarnhau bod:-*

*(a) cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau yn cael ei gynnal ddydd Gwener, 9 Mai, 2014, a*
*(b) bod eitemau busnes yn ymwneud â Chanllawiau Cyfryngau Cymdeithasol ac Archwilio Datganiadau Cysylltiad yn cael ei gynnwys ar y rhaglen ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau.*

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD-*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972 i wahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn, ar y sail ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei*

*datgelu, fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 a 13, Rhan 4, Atodlen 12a Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**RHAN II**

**9 COD YMDDYGIAD – RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

Roedd copi o adroddiad cyfrinachol gan y Swyddog Monitro (MO), a oedd yn rhoi trosolwg o gwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd y Pwyllgor Safonau eisoes wedi gofyn am gael gwybod yn rheolaidd am lefel y cwynion a gyflwynwyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Roedd y tablau yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o gwynion a gyflwynwyd ers 1 Ebrill 2012.

Cadarnhaodd y MO bod Cyfeirnod Achos 207, 208 a 209 o dan y pennawd ‘yn mynd rhagddynt’ yn Atodiad 1 bellach wedi eu cwblhau. Rhoddodd y MO fanylion Cyfeirnod Achos 249, cwyn a wnaed gan aelod o'r cyhoedd yn erbyn Aelod Etholedig.

Hysbysodd y MO y Pwyllgor am y Datrysiad Lleol cyntaf o gŵyn, a oedd wedi cael ei ddatrys yn gyfeillgar yn dilyn cytundeb gyda'r ddwy ochr berthnasol.

***PENDERFYNWYD -*** *bod y Pwyllgor Safonau yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

Daeth y Cyfarfod i ben am 11.20 a.m.